

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhestr Geiriau

Absenoldeb	Caniatâd a roddir gan y Clinigwr Cyfrifol neu'r Weinidogaeth Gyfiawnder i unigolyn sydd wedi'i gadw adael y ward neu'r ysbyty dros dro ar adegau penodol.
Adolygiad Iechyd Gwael	Weithiau bydd y Tribiwnlys yn penderfynu y dylai unigolyn gael ei ryddhau'n amodol ond bod angen gohirio'r rhyddhad hwnnw i sicrhau bod amodau'n cael eu bodloni. Er mwyn sicrhau nad oes dim oedi diangen, rhaidd i'r Tribiwnlys wneud trefniadau i gwrdd eto i fonitro'r cynnydd hwn. Gelwir y cyfarfod hwn yn ddyddiad Adolygiad Iechyd Gwael.
Adran/Gorchymyn	Rhan o'r Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n caniatáu i rywun gael ei gadw yn yr ysbyty neu'n ddarostyngedig i amodau eraill.
Anffurfiol	Yn aros yn yr ysbyty'n wirfoddol.
Argymhelliad	Pan nad yw'r Tribiwnlys yn rhyddhau, gall argymhell bod y Clinigwr Cyfrifol yn rhoi caniatâd i unigolyn sydd wedi'i gadw, ei drosglwyddo i ysbyty gwahanol, ystyried ei osod yn destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol, neu ei drosglwyddo i Warcheidiaeth.
Atgyfeiriad	Cais am i'r Tribiwnlys adolygu Adran neu Orchymyn unigolyn nad yw'n cael ei wneud gan yr unigolyn ei hun, ei Berthynas Agosaf na'i gynrychiolydd cyfreithiol. Mae gan yr Awdurdod Cyfreithiol ddyletswydd gyfreithiol i wneud atgyfeiriadau cyfnodol, fel sydd gan y Weinidogaeth Gyfiawnder yn achos pobl sy'n destun gorchymyn cyfyngu. Yn achlysurol gall Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud atgyfeiriad hefyd.
Yr Awdurdod Cyfrifol	Yr awdurdod sy'n gyfrifol am Adran neu Orchymyn, gan amlaf Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd yr ardal y mae'r unigolyn wedi'i gadw ynddi.
Cais	Os yw unigolyn am herio'r Adran neu'r Gorchymyn y mae'n ddarostyngedig iddo, gall wneud cais am i'r Tribiwnlys ei (h)adolygu.
Cais i dynnu'n ôl/Wedi'i dynnu'n ôl	Pan ofynnir am i gais i'r Tribiwnlys gael ei ganslo. Os cytunir arno, dywedir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.
Clerc/Gweithiwr Achos	Aelod o staff y Tribiwnlys sy'n darparu cymorth gweinyddol gan gynnwys trefnu gwrandawiaadau a'u hwyluso.
Clinigwr Cyfrifol	Yr unigolyn sy'n gyfrifol am ofal rhywun tra bo'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Meddyg fydd hwn fel arfer (neu seiciatrydd). Efallai y bydd y talfyriad "CC" yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at y Clinigwr Cyfrifol.
Cyfarwyddiadau/Wedi cyfarwyddo	Os oes angen rhagor o wybodaeth ar y Tribiwnlys, er enghraifft adroddiad, neu os oes arno angen i unigolyn

	penodol fynd i'r gwrandawriad, bydd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r perwyl hwnnw. Yn aml, rhoddir cyfarwyddiadau pan fydd gwrandawriad yn cael ei ohirio.
Cynrychiolydd cyfreithiol	Unigolyn sy'n cytuno i gyflwyno barn parti yn y gwrandawriad. Mae gan gynrychiolydd cyfreithiol hawl i ofyn cwestiynau i dystion yn y gwrandawriad. Gall unigolyn sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl gael ei gynrychioli gan gyfreithiwr iechyd meddwl arbenigol yn ddi-dâl os yw'n dymuno hynny.
Diddymu/Diddymiad	Gall unigolyn sy'n destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol gael ei alw'n ôl i'r ysbyty am 72 awr os bydd yn mynd yn sâl eilwaith o ran ei iechyd meddwl. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw gall naill ai gael caniatâd i adael yr ysbyty a bydd y Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yn parhau neu gall y Gorchymyn gael ei ddiddymu. Yn yr achos hwnnw, bydd yr unigolyn yn mynd yn ôl i gael ei gadw yn ôl yr adran a oedd yn gymwys cyn i'r Gorchymyn Triniaeth Gymunedol gael ei wneud.
EIMA	Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol sy'n gallu helpu i egluro hawliau cyfreithiol unigolyn a rhoi cymorth yn ystod ei driniaeth yn yr ysbyty, gan gynnwys yng ngwrandawriadau'r Tribiwnlys (gweler hefyd: eiriolwr).
Eiriolwr	Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol sy'n gallu helpu i egluro hawliau cyfreithiol unigolyn a rhoi cymorth yn ystod ei driniaeth yn yr ysbyty, gan gynnwys yng ngwrandawriadau'r Tribiwnlys.
Galw'n ôl	Pan fo unigolyn sydd wedi'i Rhyddhau'n Amodol o Orchymyn Ysbyty neu'n destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yn cael ei ddwyn yn ôl i'r ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.
Gohiriad/Wedi'i Ohirio (Adjournment/Adjourned)	Mae'r Tribiwnlys wedi cwrdd ond ni all ddod i benderfyniad. Bydd yn trefnu cwrdd eto ar ddyddiad yn y dyfodol.
Gohiriad/Wedi'i Ohirio (Postponement/Postponed)	Bu'n rhaid i wrandawriad Tribiwnlys gael ei ganslo a'i symud i ddyddiad diweddarach.
Gorchymyn Triniaeth Gymunedol	Pan fo claf sydd wedi'i gadw yn yr ysbyty er mwyn cael triniaeth ac sydd wedi'i ryddhau yn ddarostyngedig i amodau penodol ac i rwymedigaeth i gael ei alw'n ôl i'r ysbyty os bydd yn mynd yn sâl eilwaith o ran ei iechyd meddwl, dywedir ei fod yn destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol.
Nid yw wedi'i ryddhau	Mae'r Adran neu'r Gorchymyn yn parhau ar waith hyd yn hyn.
NSC	Nyrs Seiciatrig Cymunedol
Penderfyniad	Pan fo gwrandawriad y Tribiwnlys wedi'i gwblhau, bydd y Tribiwnlys yn penderfynu a fydd Adran neu Orchymyn yn cael ei (h)ategu (nid yw wedi'i ryddhau), neu ei

	(d)dileu (rhyddhad neu ryddhad a ohiriwyd). Caiff y rhesymau dros benderfyniad y Tribiwnlys eu hysgrifennu mewn dogfen Benderfyniad ffurfiol.
Perthynas Agosaf	Y term cyfreithiol am unigolyn sydd â hawliau penodol pan gaiff ei berthynas ei gadw yn yr ysbyty neu'n ddarostyngedig i Orchymyn. Nid yw bob amser yr un fath â'r Câr Agosaf.
Rhyddhad Amodol/Rhyddhau'n Amodol	Pan fo unigolyn yn cael ei gadw yn yr ysbyty drwy orchymyn gan y llys (gorchymyn ysbyty) ac yn ddarostyngedig i gyfyngiad ar ei ryddhau (gorchymyn cyfyngu) yn cael ei ryddhau gan y Tribiwnlys yn ddarostyngedig i amodau ac yn destun rhwymedigaeth barhaol i gael ei alw'n ôl i'r ysbyty, dywedir ei fod yn destun Rhyddhad Amodol.
Rhyddhad Llwyd	Pan fo unigolyn yn cael ei gadw yn yr ysbyty drwy orchymyn a wneir gan lys (gorchymyn ysbyty), ac yn ddarostyngedig i gyfyngiad ar ei ryddhau (gorchymyn cyfyngu) yn cael ei ryddhau gan y Tribiwnlys heb amodau a heb fod yn agored i gael ei alw'n ôl i'r ysbyty, dywedir iddo fod yn destun Rhyddhad Llwyd.
Rhyddhad wedi'i ohirio	Pan fo Tribiwnlys yn penderfynu rhyddhau claf gall ohirio'r dyddiad y bydd yn cael ei ryddhau o'r ysbyty am gyfnod penodedig byr.
TAIMC	Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, neu "y Tribiwnlys".
Y Tîm Gofal	Y tîm sy'n gyfrifol am ofal rhywun tra bydd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl, er enghraifft ei feddyg, gweithiwr cymdeithasol, nyrs seiciatrig cymunedol a staff y ward.
Trosglwyddo	Pan fo rhywun yn cael ei symud yn ffurfiol i ysbyty a thîm gofal gwahanol.
Yr Uwch Dribiwnlys	Mae'r Uwch Dribiwnlys yn gwrando ar apeliadau ynghylch pwyntiau cyfreithiol gan y Tribiwnlys Iechyd Meddwl yn Lloegr, a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.
Wedi'i gadw	Yn destun rhwymedigaeth gyfreithiol i aros yn yr ysbyty.
Wedi'i ryddhau	Caiff yr Adran neu'r Gorchymyn ei (d)dileu.
Y Weinidogaeth Gyfiawnder	Yr adran yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bobl sy'n destun gorchymynion cyfyngu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r Ddeddf Gweithdrefnau Troseddol (Gorffwylledd).

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.